NASUWT CYMRU
Undeb yr Athrawon The Teachers' Union

NASUWT Cymru
Greenwood Close/Clos Greenwood
Cardiff Gate Business Park/
Parc Busnes Porth Caerdydd
Cardiff/Caerdydd CF23 8RD

Tel/Ffôn: 029 2054 6080

E-mail/E-bost: nasuwt@mail.nasuwt.org.uk
Website/Gwefan: www.nasuwt.org.uk

Hillscourt Education Centre
Rose Hill
Rednal
Birmingham B45 8RS

Tel/Ffôn: 0121 453 6150

General Secretary (Acting)/Ysgrifennydd Cyffredinol (Dros Dro): Chris Keates (Ms)

Dyddiad: 11 Medi 2019

Ein Cyfeirnod: 190911/DIRECTOR OF SERVICES-WALES/CK/TF

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant

Annwyl Gyfarwyddwr

Y Codiad Cyflog i Athrawon ar gyfer 2019/20

Fel y gwyddoch, cyhoeddwyd adroddiad cyntaf y Corff Adolygu Cyflogau annibynnol i Gymru (y cyfeirir ato fel 'y Corff Adolygu' o hyn ymlaen) ar 22 Gorffennaf 2019, a oedd yn argymell y codiad cyflog i athrawon ar gyfer 2019/20.

Mae adroddiad y Corff Adolygu'n disgrifio'r argyfwng cynyddol o ran recriwtio a chadw athrawon, y gostyngiad yn enillion yr athrawon mewn termau real ers 2010, y ffaith nad yw cyflogau athrawon yn gystadleuol o'u cymharu â chyflogau proffesiynau graddedig eraill, a nifer yr aelodau sy'n dewis peidio cyfranogi yn y Cynllun Pensiwn Athrawon. Rhaid ystyried hyn hefyd yng nghyd-destun y cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion dros y pum mlynedd nesaf.

Mae'r Gweinidog Addysg wedi cynnig ychwanegu 5% i isafbwynt y brif ystod cyflog ac ychwanegiad o 2.75% i bob lwfans arall yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Gwaith Athrawon Ysgol (STPCD) 2019 i Gymru. Mae'n debyg mai'r rhain fydd yr unig werthoedd cyflog i athrawon i gael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

Er nad yw'r codiad cyflog yn gwneud fawr ddim i gau'r bwlch cyflogau rhwng yr athrawon a phroffesiynau graddedig eraill, sef 20% ar hyn o bryd, mae NASUWT yn disgwyl y bydd:

- pob athro ac athrawes sy'n gyflogedig ar isafbwynt y brif ystod cyflog yn derbyn codiad cyflog o 5%;
- pob athro ac athrawes a phob arweinydd ysgol a gyflogir gan yr ysgolion yn eich awdurdod lleol chi uwchlaw isafbwynt y brif ystod cyflog yn derbyn codiad cyflog o 2.75% yn 2019/20;
- y codiad cyflog a grybwyllwyd uchod yn ddiamod h.y. heb ei gysylltu â pherfformiad y gweithiwr, ac y bydd
- y codiad cyflog yn cael ei ychwanegu at unrhyw ddatblygiad cyflog ar sail perfformiad y mae athrawon yn gymwys i'w gael.

Cyhoeddwyd adroddiad y Corff Adolygu'n llawer hwyrach na'r dyddiad y disgwyliwyd ei gyhoeddi yn ôl ei amserlen swyddogol. Nid yw'r ymgynghoriad ar y codiad cyflog yn cau tan 13 Medi. Fodd bynnag, wrth ddisgwyl canlyniad yr ymgynghoriad, mae NASUWT yn credu ei bod hi'n hanfodol i athrawon ac arweinwyr ysgol dderbyn sicrhad cyn diwedd mis Medi y byddent yn derbyn y codiad cyflog yn llawn, wedi'i ôl-ddyddio i 1 Medi.

Os bydd ysgolion yn methu â chyflawni disgwyliadau lleiaf NASUWT ynghylch y codiad cyflog sydd wedi'u nodi yn y llythyr hwn, bydd yr Undeb yn ymgynghori â'i aelodau ynglŷn â gweithredu diwydiannol priodol i sicrhau'r rhain. Ond, ein gobaith yw na fydd angen cymryd camau gweithredu o'r fath o ystyried y dystiolaeth na ellir ei gwadu bod athrawon yn gymwys i godiad cyflog llawer uwch na'r 2.75% a gynigiwyd gan y Llywodraeth.

Diolch o flaen llaw am eich cydweithrediad yn y mater hwn.

Yr eiddoch yn gywir

Chris Keates (Ms)
Ysgrifennydd Cyffredinol (Dros Dro)